Y Pwyllgor Deisebau
Petitions Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

Ein cyf: P-04-480

19 Rhagfyr 2013

Annwyl Syr/Madam,

Fel y gwyddoch, o bosibl, diben Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gaiff eu cyflwyno gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cael y ddeiseb a ganlyn gan Undeb Myfyrwyr Aberystwyth:

*Galwn ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio i'r problemau a nodwyd yn yr adroddiad diweddar am yr arolwg o dai yn Aberystwyth yn 2012. Cododd yr adroddiad bryderon ynghylch safon wael llety myfyrwyr a'r ffordd wael, sy'n cyfateb i hynny, y caiff myfyrwyr eu trin yn y sector rhentu preifat. At hynny, galwn ar Lywodraeth Cymru i gynnal ymgynghoriad llawn ac agored*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8998
E-bost: deisebau@cymru.gov.uk

*ynghylch y mater angof hwn gyda'r cymunedau y mae hyn yn effeithio arnynt, yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth tai bresennol a mesurau newydd gan yr awdurdodau perthnasol yn cael eu dilyn yn gywir er mwyn cynorthwyo i godi safonau yn y sector rhentu preifat.*

*Mae tai myfyrwyr wedi bod yn broblem gyson yn Aberystwyth ers blynyddoedd. Cynhaliwyd arolwg ymysg myfyrwyr ynghylch eu profiadau o ran tai ac mae manylion y problemau y maent yn eu hwynebu wedi'u cynnwys mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2012.*

Ceir copi o'r adroddiad y cyfeirir ato yn y ddeiseb yma.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i edrych yn fwy manwl ar y mater hwn.

Hoffem glywed barn unigolion, grwpiau a sefydliadau am bwnc y ddeiseb hon. Yn enwedig, hoffem gael barn eich sefydliad chi. Caiff y sylwadau eu defnyddio fel tystiolaeth gan y Pwyllgor Deisebau wrth iddo ystyried y ddeiseb. Byddwn hefyd yn cysylltu â myfyrwyr fel y gall y Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan y rhai y mae'r materion a drafodir yn y ddeiseb yn effeithio arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno’r Bil Tai (Cymru) cyn bo hir.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn clywed eich barn am safon llety myfyrwyr ledled Cymru, a pha gamau, os oes rhai, y mae angen eu cymryd i godi safonau.

**Materion y gallech eu hystyried wrth ymateb.**

- Ydych chi'n cytuno â chasgliadau Undeb y Myfyrwyr yn ei adroddiad?
- Oes gennych chi bryderon am safon llety myfyrwyr? Os oes, pa newidiadau, yn eich barn chi, fyddai'n helpu i godi safonau?
- Un o'r materion a godwyd gan y deisebwyr yw lefel y ffioedd gweinyddol. Maent wedi ystyried naill ai gwahardd y ffioedd gweinyddol yn llwyr neu bennu uchafswm. A ydych yn cytuno â hyn? Beth fyddai effaith gwaharddiad neu uchafswm?
- Pam fod rhai asiantaethau'n codi mwy ar denantiaid am gadw'r blaendaliad nag a godir gan y cynlluniau diogelu blaendaliadau?
- Yn achos eiddo nad yw'n cyrraedd y safonau gofynnol, ydych chi'n credu bod y cynllun gorfodi presennol yn ddigon cadarn? Os nad yw, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i wella'r prosesau gorfodi?

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, byddem yn falch o'i chael erbyn **28 Chwefror 2014.** Gallwch anfon copi electronig o'ch sylwadau at deisebau@cymru.gov.uk. Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor Deisebau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd CF99 1NA.

**Ymateb i gais i gyfrannu at yr ymgynghoriad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch ddisgrifiad byr o rôl y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad cyn penderfynu a yw am gynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **28 Chwefror 2014.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar petaech yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**Rhestr Ddosbarthu:**

Rhwydwaith Achredu y DU

Cymdeithas Asiantaethau Gosod a Rheoli

Cymdeithas Asiantaethau Gosod Preswyl

Cyngor Sir Ceredigion

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Y Sefydliad Tai Siartredig

Cyngor ar Bopeth

Cartrefi Cymunedol Cymru

Addysg Uwch Cymru

Cynllun Achredu Landlordiaid

Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

Shelter Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru